gunsmoke communications
PR | MEDIA | MARKETING




**Y RHYL yn coroni penwythnos o ddathliadau Jiwbilî Platinwm y Frenhines gyda digwyddiad am ddim i'r gymuned gyfan.**

Gan ddathlu 70 o flynyddoedd y Frenhines ar yr orsedd, cynhaliodd Cyngor Tref y Rhyl ddiwrnod o ddigwyddiadau i nodi'r achlysur arbennig.

Roedd *Y Rhyl Frenhinol* yn dwyn ynghyd westai brenhinol hanesyddol – delw byw o'r Frenhines Victoria – crefftau a gweithgareddau gyda thema frenhinol, gemau glan y môr traddodiadol a swigod coch, glas a gwyn. Seren y sioe oedd Sinema Sol, sinema leiaf y byd sy'n cael ei phweru can yr haul.

Y digwyddiad cymunedol oedd y cyntaf ar gyfer maer eleni, y Cynghorydd Diane King.

"Roeddem yn benderfynol i ddathlu Jiwbilî Platinwm y Frenhines gyda gweithgareddau arbennig ar gyfer y teulu cyfan. Roedd y digwyddiad am ddim ar y stryd fawr yn cynnig rhywbeth i bawb, a dyna oedd penwythnos y Jiwbilî," meddai'r Cynghorydd King.

"Mae wedi bod yn braf gweld pobl allan yn mwynhau haul y Rhyl, yn mwynhau'r hyn sydd gan y dref i'w gynnig a threulio amser gyda'i gilydd. Dros yr ychydig fisoedd nesaf mae llawer yn digwydd yma gyda chyngherddau, gweithgareddau a datblygiadau newydd, felly mae'n addo bod yn gyfnod cyffrous yn lleol."

Hefyd yn ymuno yn yr hwyl oedd tîm o Ganolfan Gristnogol Sussex Street a oedd â negeseuon arbennig gan bobl y Rhyl i'w hanfon at y Frenhines.
Y digwyddiad cymunedol am ddim nesaf fydd *Cychwyn yr Haf* i'w gynnal ar ddydd Sadwrn 30 Gorffennaf. Mae'r digwyddiad yn cynnwys perfformiad theatr arbennig gydag Ynys Bellennig a chimwch mawr, cerddoriaaeth gan Elton Wrong – act deyrnged i'r rociwr Elton John – a llwyth o weithgareddau erauill. I gael gwybodaeth, cadwch lygad ar rhyltowncouncil.org.uk

**Caps:**
O'r chwith i'r dde: Tywysogesau am y dydd: Jameela, Nardia a Narla Lappin gyda'u mam Sarah wedi gwisgo i fyny.
Freya Rose, dwy oed, yn profi ei nerth.
Maer y Rhyl y Cynghorydd Diane King yn cael ei thocyn ar gyfer sinema leiaf y byd.
Swigod coch, glas a gwyn yn y Rhyl Frenhinol.
Lennon Hesketh, pump oed, yn wynebu'r Frenhines Victoria.
Maer y Rhyl y Cynghorydd King yn chwifio'r faner ar gyfer y Jiwbilî Platinwm.
Byddwn yn cyfarfod eto: neges i'r Frenhines gan faer y Rhyl y Cynghorydd Diane King.

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications